Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

# Gweledigaeth a Strategaeth to 2025

## Ysbrydoli, Trawsnewid, Galluogi a Chynnal



wgu.ac.uk

PRIFYSGOL Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr UNIVERSITY

# Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Is-Ganghellor.

**Mae Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn falch iawn o gymeradwyo Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol hyd 2025 ar ein newydd wedd. Fe welsom newidiadau a datblygiadau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hynny o fewn y Brifysgol ei hun a thu hwnt. Mae'r adolygiad hwn yn gyfle amserol, felly, i fyfyrio ar y cynnydd sylweddol a wnaethom eisoes, diolch i waith caled y staff, ac i sicrhau ein bod yn parhau i osod nodau heriol i'n hunain wrth inni symud yn ein blaen.**

Mae'r Bwrdd yn croesawu'n galonnog y genhadaeth a'r weledigaeth sydd yn sail i Weledigaeth a Strategaeth hyd 2025, ac sydd yn mynegi eu hunain yn y pedwar parth strategaeth: addysgu sy'n ysbrydoli, ymchwil sy'n trawsnewid, ymgysylltu sy'n galluogi a strwythur sy'n cynnal.

Mae'r adolygiad o Weledigaeth a Strategaeth hyd 2025 wedi ei oleuo gan ystod o themâu trawsbynciol, sydd yn derbyn ystyriaeth reolaidd gan Fwrdd y Llywodraethwyr: gallu digidol rhagorol i gefnogi ein seilwaith a'n haddysgu; esblygiad siâp ein portffolio a'n dulliau darparu; ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth fel prifysgol ddinesig; meddwl yn nhermau senarios yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol sydd ar ddod a datblygiadau economaidd-gymdeithasol ehangach. Bydd y cynllun strategol yn parhau i fod yn ddilys a deinamig ac edrychaf ymlaen at ei weld yn cael ei weithredu.

"



**Maxine Penlington OBE,**
**Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr.**



**Cyflwynwn gydag ymdeimlad o falchder ein Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2025 ar gyfer ein prifysgol ar ei newydd wedd. Mae i'w lansio yn 2021 - tua hanner ffordd drwy oes y cynllun, gyda nifer o amcanion eisoes wedi eu cyflawni a rhai yn cael eu hailosod.**

Yn ystod y broses adolygu, fe wnaethom ni edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd ers inni fabwysiadu ein gweledigaeth a strategaeth yn 2018, ystyried rhai o'r datblygiadau diweddar a'r newidiadau ysgubol yn ein hamgylchedd weithredu, ac edrych ymlaen at gyfleoedd tros y blynyddoedd sydd weddill ar gyfer y cynllun. Cawsom fod y gwerthoedd sydd yn sail i Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2025 yn parhau i fod yn gryf ac yn berthnasol, ac rydym yn byw ac yn anadlu'r rhain yn ddyddiol. Ein prif ffocws yw darparu deilliannau rhagorol ar gyfer myfyrwyr, fel sy'n cael ei fynegi yn ein datganiad o genhadaeth: ysbrydoli a galluogi drwy addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltu; gweithio gyda'n myfyrwyr, ein staff a phartneriaid.

Rwy'n ddiolchgar i bawb gyfrannodd i'r adolygiad, p'un ai fel cyfranogwyr mewn cyfarfodydd a grwpiau ffocws neu yn awduron adrannau penodol. Ond yn and dim, hoffwn ddiolch i'r holl gydweithwyr a rhanddeiliaid sydd wedi chwarae rhan yn ein cyflawniad sylweddol ers inni ddatblygu Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2025. Edrychaf ymlaen at weld llawer mwy o lwyddiannau, wrth inni symud i'r cam nesaf o gyflawni.

## Yr Athro Maria Hinfelaar

**Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr**
**Vice-Chancellor and Chief Executive**
**Ein Cenhadaeth a Phroffil.**

# Ein Cenhadaeth a’n Proffil.

## Ein cenhadaeth yw ysbrydoli a galluogi drwy addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltu; gweithio gyda’n myfyrwyr, ein staff a phartneriaid.

I’n myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid rydym yn brifysgol sydd yn cynnig gwir deimlad cymunedol. Rydym yn darparu rhaglenni addysg ac ymchwil i safon uchel iawn, ac mae gennym enw ymysg y proffesiynau a diwydiant am fod yn ymarferol ac am ganolbwyntio ar yrfaoedd.

Mae ein treftadaeth yn estyn yn ôl i’r 1880au, drwy amrywiol golegau rhagflaenol, gan arwain at gyflawni statws prifysgol yn 2008. Mae ein campysau wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Mae gennym ethos cryf o ehangu cyfranogiad fel y brifysgol sy’n arwain ar gynhwysiant cymdeithasol a symudedd, yn ôl y Sunday Times, a dystiolaethir gan fetrigau wedi’u meincnodi. Rydym yn cyflwyno cyfleoedd addysg uwch arloesol i fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol yn ein rhanbarth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae ein graddedigion yn cyflawni deilliannau da sydd hefyd o fudd i’w cyflogwyr, eu teuluoedd a’r gymuned ehangach.

Rydym yn ymgysylltu mewn modd dinesig, yn cydweithio gyda llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus, darparwyr gofal iechyd, ysgolion a sefydliadau’r trydydd sector. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos gydag Undeb y Myfyrwyr, sydd yn cyfrannu’n fawr iawn at ein llwyddiannau academaidd ac i’n diwylliant cefnogol a chynhwysol. Rydym yn cefnogi’r gwaith o gyflawni strategaeth Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau bod ystyriaeth i fyfyrwyr yn llywio ein








Labordy Nyrsio Milfeddygol, Llaneurgain




**Campws OpTIC, Llanelwy**




**Y Prif Gampws, Wrecsam**

a bod myfyrwyr wrth galon y penderfyniadau a wnawn. Rydym yn cyflawni ein rhaglenni academaidd drwy ddwy Gyfadran o bortffolios eang a synergyddol: Cyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg (CCGTh) a Chyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd (CGCB). Maent yn cynnwys ystod gynhwysfawr o sectorau: peirianneg a thechnoleg; y gwyddorau; busnes a chyllid; y celfyddydau a'r dyniaethau; gofal iechyd a gwaith cymdeithasol; addysg a gofal anifeiliaid. Mae'r holl raglenni yn rhannu ffocws ar gyflogadwyedd, mewnwelediad gan ymarferwyr ac ymchwil berthnasol; mae nifer yn elwa o gydnabyddiaeth gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddio. Mae'r Cyfadrannau a'u myfyrwyr yn cael eu cefnogi gan dimoedd sydd yn cynnig gwasanaethau proffesiynol ar draws y brifysgol.

Mae ein cryfderau ymchwil ym maes peirianneg ffotoneg, cyfrifiadureg, deunyddiau cyfansawdd, cyfiawnder troseddol, a'r celfyddydau mewn therapïau iechyd.

Rydym yn cymryd rhan mewn cydweithrediadau ymchwil gydag ystod o bartneriaid ar draws y byd academaidd, diwydiant a'r llywodraeth. Mae ein safle OpTIC yn Llanelwy yn ganolfan flaenllaw ar gyfer Ymchwil a Datblygu seiliedig ar dechnoleg, ac yn gartref i Ganolfan Arbenigedd Ffotoneg Cymru sydd yn gweithio'n agos gyda chwaraewyr allweddol ym maes awyrofod.

Rydym wedi arallgyfeirio'n sylweddol y dulliau astudio sydd ar gael i fyfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnig llwybrau a chyfleoedd newydd i gynulleidfa ehangach. Mae'r ddwy Gyfadran wedi datblygu rhaglenni newydd mewn astudiaeth ôl-raddedig a ddysgir, sydd yn denu nid yn unig ein graddedigion diweddar ein hunain, ond hefyd nifer cynyddol o fyfyrwyr rhyngwladol. Yn ychwanegol i hyn, rydym wedi ehangu ein portffolio o ddarpariaeth gydweithredol ryngwladol drwy ryddfreinio (Addysg Trawswladol), yng ngwledydd De-ddwyrain Asia yn bennaf, ac rydym wedi lansio cyfres o gyrsiau MBA ac MSc hyblyg dan faner PGW Ar-lein, sydd yn recriwtio myfyrwyr ar draws y byd. Mae'r mentrau newydd yma wedi tyfu'n gyflymach na'r disgwyl, gan ehangu mynediad i gyfleoedd Addysg Uwch i filoedd yn fwy o fyfyrwyr a chreu refeniw ychwanegol ar gyfer y Brifysgol.

## Mae partneriaethau wedi datblygu hefyd yn y DU, er enghraifft gyda cholegau Addysg Bellach yn y rhanbarth, prentisiaethau gradd gyda chyflogwyr lleol, contractau mawr gyda chyrff gofal iechyd a darparu rhaglenni Addysg Athrawon gyda Phrifysgol St Mary's, Twickenham.

Mae gan y brifysgol dri is-gwmni. Mae Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn rhedeg Xplore! Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth, a elwid gynt yn Techniquest, ac sydd wedi adleoli i ganol tref Wrecsam gyda chefnogaeth cyllid Wellcome Trust a chyllid adfywio gan Lywodraeth Cymru. Mae Arloesiadau Glyndŵr Cyf yn goruchwylio Grŵp Precision Optics, y ganolfan deori busnes yn OpTIC, Llanelwy, ac yn darparu elfen PGW o raglen Bargen Twf Gogledd Cymru, gan ariannu cyfleusterau newydd ar gyfer gweithgynhyrchu uwch. Mae Gwasanaethau Glyndŵr Cyf yn gyfrifol am rai o'r swyddogaethau ategol yn y brifysgol.

Mae'r is-gwmnïau hyn yn gangen hanfodol o'r brifysgol gan gyfrannu at ein cenhadaeth a'n proffil, gyda chysylltiadau cryf ag adrannau gwasanaethau academaidd neu broffesiynol perthnasol.

Mae llawer wedi ei gyflawni eisoes ers mabwysiadau Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2025, ac sydd yn dal i fod ar y trywydd iawn. Rydym wedi datblygu meysydd newydd o ran recriwtio myfyrwyr ac maent yn parhau ar drywydd twf. Rydym wedi arddangos meincnodau ansawdd academaidd cadarn, gan dderbyn cymeradwyaeth yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA). Rydym wedi cyflawni canlyniadau Adolygiad Cenedlaethol o Fyfyrwyr sydd yn arwain y sector, ac wedi gweld cynnydd o ran cadw myfyrwyr. Rydym wedi cyflawni prosiectau mawr fel rhan o'n Prif Gynllun Campws 2025, gan drawsnewid yr amgylchedd ddysgu ar gyfer ein myfyrwyr. Rydym wedi cyflawni canlyniadau rhagorol yn ein harolwg o ymgysylltiad staff, ble nodwyd lefelau uchel o falchder a boddhad uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y sector. Mae ein perfformiad ariannol wedi bod yn barhaus a chryf, gan gynhyrchu gwargedion gweithredol a'r gallu i fuddsoddi yn ein cyfleusterau. Rydym wedi gwella enw da'r Brifysgol yn ein rhanbarth trawsffiniol a ledled Cymru.

Fe wnaethom ni brofi ein gallu i ymateb yn ystod cyfnod heriol, pan roedd y sector a'r rhanbarth yn wynebu newidiadau seismig a drodd yn argyfwng iechyd y cyhoedd, gan arwain hefyd at argyfwng




**Argraff gweledol o'r Adeilad Porth Dysgu arfaethedig, Prif Gampws, Wrecsam**

cymdeithasol ac economaidd. Fe wnaethom ni gyflwyno'r Fframwaith Dysgu Gweithredol (ALF), sydd wedi ail-ddychmygu'r modd rydym yn darparu rhaglenni mewn ffordd fwy hyblyg a hygyrch. Fe wnaethom ni fuddsoddi adnoddau ychwanegol ar gyfer staff sydd yn gweithio gartref, a barhaodd i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n myfyrwyr ar draws adrannau. Fe wnaethom ni greu campysau Covid-ddiogel, yn barod at pan fydd pobl yn dychwelyd. Rydym ni hefyd yn hynod ymwybodol o'r rhan sydd angen inni ei chwarae yn yr ymdrech adfer ehangach yn dilyn y pandemig, a fydd yn faes ffocws allweddol yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Mae gennym ni bob rheswm i fod yn hyderus fod gennym y gallu i ymateb i senarios gwahanol, gan adeiladu ar ein llwyddiannau a pharhau i gydweithio'n agos gyda'n cymuned o fyfyrwyr, staff a rhanddeiliaid i gyflawni Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2025.






# Ein Gwerthoedd.





Mae gweledigaeth a gwerthoedd y Brifysgol yn parhau i fod wrth galon y gwaith a wnawn.

Mae datblygiadau diweddar, gyda'r pandemig a'i effeithiau ehangach mor flaenllaw, wedi cadarnhau pa mor hanfodol yw ein gwerthoedd o ran sut rydym yn gwneud penderfyniadau a sut rydym yn ymateb i heriau. Yn bwysicach fyth, mae'r weledigaeth a'r gwerthoedd a leisir yn Gweledigaeth a Strategaeth 2025 wedi bod yn sail i'n ffocws ar sut i gynnig y gefnogaeth orau i'n myfyrwyr a'n staff, yn ogystal â'r gymuned ehangach yn ystod y cyfnod heriol hwn.

# Ein gwerthoedd yw bod yn:

## Hygyrch

Rydym yn eiriolwyr angerddol dros ddysgu gydol oes ac yn credu na ddylai cefndir nac amgylchiadau fod yn rhwystr i ymgysylltu ag addysg uwch. Rydym yn ymroddedig i hygyrchedd, tegwch a chynwysoldeb yn y modd yr ydym yn addysgu, ymchwilio a darparu ein gwasanaethau.

## Cefnogol

Rydym yn meithrin amgylchedd cefnogol i annog ein staff a myfyrwyr i weithio gyda'i gilydd i gyflawni eu nodau dysgu, ymchwil a gyrfaol.  Mae ein cymunedau yn agos at ein calon ac rydym yn arwain yn rhagweithiol i gefnogi mentrau sydd yn cyfoethogi'r economi leol a bywydau pobl leol.

## Arloesol

Rydym yn gwneud pethau'n wahanol. Rydym yn cydnabod bod ein llwyddiant yn ddibynnol ar egni, deallusrwydd a chreadigedd cyfunol cymuned y brifysgol. Rydym yn mynd ati i annog safbwyntiau newydd ac arloesi yn ein haddysgu, ymchwil a'r modd rydym yn ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid. Rydym yn cwestiynu'r status quo ac yn ddigon dewr i gofleidio ffyrdd newydd o wneud pethau. Mae hyn yn galluogi ein diwylliant, strwythur, polisïai a phobl i lywio rhagoriaeth ac ymateb yn effeithiol i angen.

## Uchelgeisiol

Rydym yn hynod uchelgeisiol dros ein staff, myfyrwyr a'n cymunedau. Rydym yn cydnabod nac oes unrhyw gyfyngiadau i ddysgu a gwybodaeth ac rydym yn herio pobl i ddilyn eu dyheadau a llwyddo drwy addysg.

# Ein Gweledigaeth.

Mae cenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol yn mynegi eu hunain yn y weledigaeth ar gyfer ein pedwar parth strategaeth: dysgu sy'n ysbrydoli, ymchwil sy'n trawsnewid, ymgysylltu sy'n galluogi a strwythur sy'n cynnal.

Gyda'i gilydd, mae'r parthau strategaeth hyn yn siapio ein gweledigaeth i fod yn lle delfrydol ar gyfer ein myfyrwyr, partneriaid a staff.

Mae'r weledigaeth hon yn cyfieithu i gyfleoedd a datrysiadau perthnasol mewn addysg uwch, ymchwil a gwaith dinesig. Mae manylion ynghylch blaenoriaethu gweithredu a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar draws y parthau strategaeth hyn yn cael eu nodi dros y tudalennau nesaf.







## Dysgu sy'n ysbrydoli

Galluogi dysgu ysbrydoledig drwy addysgu rhagorol, gan ddarparu cyfleoedd i'n myfyrwyr ffynnu fel dinasyddion byd-eang iach, gweithgar a chyfrifol.

## Ymchwil sy'n trawsnewid

Cefnogi arloesi, dysgu a thwf economaidd, drwy fod yn rhagorol yn rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyredd.

## Ymgysylltu sy'n galluogi

Cyfoethogi'r rhanbarth a thu hwnt, gan gefnogi a datblygu unigolion, cymunedau, diwylliant a'r gymuned.

## Strwythur sy'n cynnal

Darparu gwasanaethau a seilwaith gweithredu sy'n cefnogi pob rhan o'r strategaeth; cyflawni rhagoriaeth drwy bobl, lleoedd ac adnoddau.

# Dysgu sy’n Ysbrydoli

| | |
|---|---|
| **Nod** | Galluogi dysgu ysbrydoledig drwy addysgu rhagorol, gan ddarparu cyfleoedd i’n myfyrwyr ffynnu fel dinasyddion byd-eang iach, gweithgar a chyfrifol. |
| **Ymagwedd** | Darparu dysgu hyblyg a hygyrch wedi ei danategu gan ymgysylltiad gweithredol gan fyfyrwyr ac asesu arloesol, a chan gofleidio’r arferion digidol newydd gorau, gyda gwagleoedd dysgu gwell ar y campws, ar gyfer dysgu cyfunol. Rydym yn gosod lles myfyrwyr yn flaenaf o ran yr hyn rydym yn ei addysgu, a’r ffordd rydym yn addysgu, ac yn ategu hyn gyda chymorth eang a phersonol ar gyfer myfyrwyr. Mae ein rhaglenni yn berthnasol i fyd gwaith a’r gymdeithas ddinesig; yn seiliedig ar ymarfer, yn ymchwil weithredol ac wedi eu harwain gan ‘lais myfyrwyr’; yn cael eu darparu a’u cefnogi gan staff proffesiynol sy’n canolbwyntio ar brofiad gwych i fyfyrwyr, gan eu cynorthwyo i fod yn fentrus, moesegol, i ymgysylltu a bod yn greadigol. |
| **Blaenoriaethau** | 1. Adolygu ein portffolio a llwybrau dysgu’n barhaus ar draws pob lefel i gwrdd ag anghenion dysgwyr a chyflogwyr, a thrwy hynny ddenu nifer gynyddol o fyfyrwyr<br>2. Datblygu dysgu hyblyg a hygyrch sy’n seiliedig ar ymarfer ac a lywir gan ymchwil sydd yn arfogi ein myfyrwyr gyda gwybodaeth a sgiliau ar gyfer byd gwaith ac i fod yn gyfranwyr gweithredol i’r gymdeithas ddinesig.<br>3. Gwella prosesau cadw myfyrwyr a’u cyflawniad drwy addysgu gwych a chefnogaeth gynhwysfawr tuag at lwyddiant academaidd a lles personol, gan alluogi myfyrwyr o bob cefndir i lwyddo.<br>4. Cydweithio gyda myfyrwyr fel partneriaid i ddatblygu a gwelyo ymagwedd effeithiol tuag at ymgysylltu â myfyrwyr. |
| **Gweithredu Blaenoriaethol** | 1. Datblygu darpariaeth a addysgir sydd yn cefnogi cyfleoedd gwaith a phrofiadau sy’n gysylltiedig â’r maes dinesig ar gyfer ein holl fyfyrwyr, gyda chefnogaeth seilwaith dysgu digidol a ffisegol sydd wedi ei ehangu.<br>2. Sicrhau bod y portffolio a’r llwybr yn cael eu hadolygu’n rheolaidd fel ein bod yn alinio â blaenoriaethau rhanbarthol ac yn cefnogi darpariaeth ryngwladol, gan welyo a gwella’r Fframwaith Dysgu Gweithredol.<br>3. Cyflawni dull systematig a strategol o ddatblygu, gwobrwyo a chydnabod pawb sy’n gysylltiedig ag addysgu a chefnogi dysgu.<br>4. Sefydlu a datblygu partneriaethau cydfuddiannol gyda myfyrwyr, gan fynd ati i ddefnyddio adborth dysgwyr i wella profiad myfyrwyr. |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i adnabod a monitro cynnydd** | Cyfran y myfyrwyr oedd yn fodlon yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac Arolwg Ôl-raddedigion<br>Canran y graddedigion mewn gwaith neu astudiaeth bellach<br>Canran y graddedigion mewn swyddi rheoli<br>Cadw myfyrwyr<br>Parhad Myfyrwyr<br>Niferoedd myfyrwyr yn gyffredinol<br>Nifer y myfyrwyr yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg<br>Mesurau mynediad a chyfranogiad ar gyfer corff y myfyrwyr |
| **Strategaethau Ategol** | • Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr<br>• Gwelliannau Digidol<br>• Campws 2025<br>• Strategaeth Ehangu Mynediad<br>• Cyflogadwyedd<br>• Recriwtio Myfyrwyr<br>• Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig<br>• Ymgysylltu â Dysgwyr a’u Cadw |

## Ymchwil sy'n Trawsnewid

| | |
|---|---|
| **Nod** | Cefnogi arloesi, dysgu a thwf economaidd, drwy ymgysylltu ag ymchwil sydd yn rhagorol yn rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrder. |
| **Ymagwedd** | Bydd y brifysgol yn gwella ei chapasiti, effaith a pherfformiad o ran ymchwil, gan fod yn well o ran dweud wrth eraill beth rydym yn ei gyflawni. Bydd yn gwneud hyn mewn partneriaethau ystyrlon, gyda phwyslais cryf ar ymchwil ag iddo botensial cymhwysol a masnachol ac a fydd yn ceisio cefnogi a thyfu'r rhanbarth ar lwyfan rhyngwladol. Bydd yn gweithio i sicrhau ei bod yn defnyddio deilliannau ymchwil a'r bobl sy'n gysylltiedig ag ymchwil i lywio ein haddysgu, gan sicrhau ei fod yn gyfredol, arloesol, cymhwysol a pherthnasol i anghenion y rhanbarth ar draws busnes a'r gymdeithas ddinesig. |
| **Blaenoriaethau** | 1. Tyfu allbynnau ac incwm cysylltiedig ag ymchwil.<br>2. Datblygu capasiti a gallu edd ymchwil y brifysgol drwy ddatblygu ei staff.<br>3. Tyfu'r gymuned ymchwil ôl-raddedig.<br>4. Cynyddu nifer y prosiectau cydweithio gweithredol mewn ymchwil diwydiannol ac academaidd.<br>5. Cynyddu amlygrwydd, effaith a gwerth ein hymchwil. |
| **Gweithredu Blaenoriaethol** | 1. Creu cymuned ymchwil lewyrchus gyda mwy o gapasiti a chefnogaeth effeithiol, drwy gynyddu nifer y staff a myfyrwyr PhD.<br>2. Cyflwyniadau llwyddiannus i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) a Phwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil (RDAP).<br>3. Strategaeth trosglwyddo a manteisio ar wybodaeth a fydd o fudd i'r byd academaidd a'r economi ehangach a chymdeithas ddinesig.<br>4. Datblygu cynllun ar gyfer cyfathrebu effaith a llwyddiant ein hymchwil. |

| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i adnabod a monitro cynnydd** | | | |
|---|---|---|---|
| | Deilliannau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil | Cais RDAP | Incwm Ymchwil |
| | Cyfran o staff sydd â gradd PhD | Nifer y myfyrwyr Ymchwil ôl-raddedig | Incwm o ymchwil gydweithredol a chytundebol |
| | | Nifer ac ansawdd yr allbynnau ymchwil | |

| | |
|---|---|
| **Strategaethau Ategol** | • Strategaeth Ymchwil<br>• Strategaeth Fenter<br>• Strategaeth Bobl<br>• Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles<br>• Campws 2025<br>• Strategaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd<br>• Strategaeth Gwelliannau Digidol<br>• Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig |

## Ymgysylltu sy’n Galluogi

| | |
|---|---|
| **Nod** | Cyfoethogi’r rhanbarth a thu hwnt, cefnogi a datblygu unigolion, cymunedau, diwylliant a’r economi. |
| **Ymagwedd** | Byddwn yn darparu arweinyddiaeth ddeallusol a chyfalaf gwybodaeth hygyrch i fynd i’r afael â heriau ac i ddiwallu anghenion yn lleol, rhanbarthol a rhyngwladol, i gefnogi a llywio economïau llewyrchus a chynaliadwy. Fe wnawn ni hyn drwy fod yn ymatebol, drwy gydweithio a mynd ati i gyd-greu datrysiadau. |
| **Blaenoriaethau** | 1. Catalyddu menter ac arloesi rhanbarthol a chenedlaethol drwy ddatblygu, trosglwyddo a manteisio ar sgiliau a gwybodaeth.<br>2. Gwella cyflawniad addysgol yn genedlaethol a rhyngwladol drwy weithio gyda chymunedau, partneriaid addysgol a chyflogwyr.<br>3. Cryfhau cydnerthedd cymunedol, lles a chapasiti arweinyddiaeth ddinesig. |
| **Gweithredu Blaenoriaethol** | 1. Ymgysylltu gyda chyflogwyr a llywodraeth genedlaethol a lleol i gefnogi a datblygu diwydiannau rhanbarthol a chenedlaethol.<br>2. Arwain ar weithgaredd partneriaeth addysgol yn y DU ac yn rhyngwladol, gydag ymagwedd arloesol ac ymatebol.<br>3. Cyd-greu dulliau arloesol o fynd i’r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol mewn partneriaeth gyda chymunedau ac arweinyddion. |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i adnabod a monitro cynnydd** | Nifer y myfyrwyr rhyngwladdhcwm menter<br>Nifer y mentrau busnes newydd<br>Nifer y myfyrwyr mewn addysg trawswladol (AT)<br>Nifer y myfyrwyr ar leoliadau<br>Nifer y partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth (PTG)<br>Asesiad o Effaith Prosiectau Cenhadaeth Ddinesig (astudiaethau achos) |
| **Strategaethau Ategol** | • Strategaeth Ryngwladol<br>• Strategaeth Fenter<br>• Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig<br>• Strategaeth Ehangu Mynediad<br>• Strategaeth Gyflogadwyedd |

| Strwythur sy'n Cynnal | | | |
|---|---|---|---|
| **Nod** | Darparu gwasanaethau a seilwaith gweithredu sydd yn cefnogi pob rhan o'r strategaeth; cyflawni rhagoriaeth trwy bobl, lleoedd ac anodau. | | |
| **Ymagwedd** | O ystyried yr amgylchedd sydd yn newid yn gyson, bydd y brifysgol yn parhau i adolygu a diwygio ei strwythur sefydliadol i sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei chyflawni, gan ymgorffori arferion gweithio darbodus, ystwyth, hyblyg a phroffesiynol ar draws meysydd staff academaidd a phroffesiynol. Caiff hyn ei oleuo gan wybodaeth reoli gadarn, gan gynnwys cynllunio adnoddau, gwybodaeth am fusnes a gweithlu, rheolaeth ariannol gadarn a llywodraethu da. Fe'i cefnogir gan strategaethau mewn meysydd allweddol megis gwelliannau digidol, adnoddau dynol a datblygu'r campws. Caiff hyn ei danategu hefyd drwy ddarparu gweithle teg a chynhwysol ble mae iechyd a lles a datblygiad proffesiynol yn cael eu hannog a'u cefnogi. | | |
| **Blaenoriaethau** | 1. Cymorth a datblygiad parhaus i staff y brifysgol fel eu bod yn cyflawni eu potensial ac yn cefnogi twf yn y brifysgol.<br>2. Datblygu'r amgylchedd ddysgu a gweithio drwy ddarparu seilwaith cynaliadwy.<br>3. Ehangu adnoddau ariannol y brifysgol, a danategir gan ymarfer rheoli da ac effeithlonrwydd a strwythurau sefydliadau sy'n hyblyg, ystwyth ac sy'n ateb y gofyn. | | |
| **Gweithredu Blaenoriaethol** | 1. Creu gweithle sydd yn denu, cadw a chefnogi staff i gyflawni ein strategaeth.<br>2. Parhau i gyflawni Campws 2025, gan drawsnewid yr amgylcheddau dysgu ffisegol a digidol, ar draws ein holl gampysau, i ddarparu cymorth o'r radd flaenaf ar gyfer ein holl waith a'n holl bobl.<br>3. Cynnal a datblygu rheolaeth ariannol a pharhau i greu ac archwilio cyfleoedd i gynhyrchu incwm ychwanegol.<br>4. Sefydlu a gweithredu strategaethau atodol allweddol. | | |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i adnabod a monitro cynnydd** | Gweddill/Diffyg Gweithredol ac Enillion Cyn Llog, Treth, Dibrisiant ac Amorteiddiad/ cynhyrchu arian parod | Cymhareb hylifedd a dyddiau | Costau cyflog fel % o drosiant |
| | Arolwg Boddhad Staff | % o'r Adolygiadau Perfformiad a Datblygiad a wnaed | Trosiant Staff |
| | Nifer yr oriau DPP/aelodau staff | Ynni a ddefnyddir ac allyriadau CO2 | Targedau a mesurau amrywiaeth yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| **Strategaethau Atodol** | • Campws 2025<br>• Strategaeth Gwelliannau Digidol<br>• Strategaeth Gyllid<br>• Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles<br>• Strategaeth Bobl<br>• Strategaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | | |









wgu.ac.uk

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University